5 Ebrill 2007

Elan Closs Stephens CBE yn Ymuno â Bwrdd Asiantaeth Ffilm Cymru

Mae Elan Closs Stephens CBE wedi ymuno â Bwrdd Asiantaeth Ffilm Cymru, a defnyddiodd gyfarfod cyntaf y Fforwm Addysg Ffilm newydd, a gynhaliwyd gan yr Asiantaeth Ffilm, i annog gwahanol garfannau'r sector addysg i gyd-weithio i wireddu'r manteision a ddaw yn sgil addysg ffilm, i bob agwedd o gymdeithas.

Wrth siarad yn y digwyddiad, a fynychwyd gan ystod eang o gynrychiolwyr uchel eu parch yn y diwydiant ffilm ac yn y byd addysg, bu i Elan gadeirio trafodaeth agored ar gynigion Asiantaeth Ffilm Cymru ar gyfer y weledigaeth strategol ddiwygiedig, gan gynnwys trafodaeth ynghylch yr Adolygiad Strategaeth Addysg Ffilm ledled Prydain a arweinir gan y 'British Film Institute' (BFI) a'r 'UK Film Council', sydd mewn datblygiad ar hyn o bryd.

"Yn y gymdeithas ôl-ddiwydiannol sydd ohoni, mae'r celfyddydau'n datblygu i fod yn fwyfwy pwysig. Mae cyfleoedd cyffrous iawn i'w cael yma yng Nghymru, yn arbennig ym myd addysg. Rhaid i ni, yn awr, gyd-weithio i greu cynaladwyedd; i sicrhau y gallwn gynnig cyfleoedd dysgu o'r radd flaenaf, ac i hybu manteision addysg ffilm," eglurodd Elan, sydd ar hyn o bryd yn Athro mewn Cyfathrebu a Diwydiannau Creadigol yn yr Adran
Theatr, Ffilm a Chyfryngau ym Mhrifysgol Cymru, Aberystwyth.

"Fel Asiantaeth Ffilm mae'n rhaid i ni fod mewn cysylltiad â'r cyhoedd a gydag addysg. Dylem ystyried sefydlu partneriaethau cyfochrog, a hefyd ddatblygu strategaeth sydd yn manteisio ar y mentrau newydd sydd eisoes yn bodoli ac ar y cyfleoedd fydd ar gael yn y dyfodol."

Yn aelod o Bwyllgor Addysg y BFI ers Rhagfyr 2000, ac wedi ei hapwyntio i Fwrdd y BFI yn Hydref 2001, mae Elan yn awr yn un o Lywodraethwyr y BFI. Mae hi hefyd yn

cadeirio Pwyllgor Ymgynghorol y 'British Council' yng Nghymru ac yn un o Ymddiriedolwyr y prif Fwrdd sy'n cynrychioli Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

Yn ddiweddar bu i Elan oruchwylio Adolygiad Celfyddydau Cymru, Llywodraeth Cynulliad Cymru, dan Alun Pugh AC, a ymgymerodd i gynnal adolygiad eang o'r trefniant ariannol presennol ar gyfer y celfyddydau, gan gynnwys rôl Cyngor Celfyddydau Cymru, ac i edrych ar fframwaith posib ar gyfer y dyfodol i ariannu a datblygu mynediad a chynhwysiant i'r celfyddydau, gan fynd i'r afael ag anghydraddoldebau cymdeithasol.

Croesawyd ei hapwyntiad i Fwrdd Asiantaeth Ffilm Cymru gan y Cadeirydd, Peter Edwards.

"Ni yw'r unig Asiantaeth Ffilm yng Nghymru. Mae gennym gyfrifoldeb i sicrhau fod agweddau economaidd, diwylliannol ac addysgol ffilm yn cael eu cynrychioli'n effeithiol yng Nghymru, ym Mhrydain a'r Byd. Yn fwyaf arbennig mae ein strategaeth addysg yn ceisio mynd i'r afael â, ac yn ceisio gwneud y gorau o addysg ffilm, sy'n cynnwys gwella llythrennedd yn gyffredinol, gwella sgiliau cyfathrebu ac ymwneud cymdeithasol, sydd â manteision gydol oes. Yn yr Asiantaeth Ffilm 'rydym yn ystyried y dylai mynediad i ffilm ac addysg ffilm fod yn hawl ddiwylliannol i bawb," meddai.

"Mae apwyntiad Elan yn cryfhau ein Bwrdd yn fwy fyth, ac 'rydym wrth ein bodd ei bod wedi derbyn ein cynnig i ymuno â'r tîm."

Aelodau Bwrdd Asiantaeth Ffilm Cymru yw Peter Edwards, Cadeirydd, Sybil Crouch, Is-Gadeirydd, Angharad Evans, Stephen Cleary, Nerys Lloyd ac Ynyr Williams. Pauline Burt yw'r Prif Weithredwr.

Mae **Asiantaeth Ffilm Cymru** yn cael ei ariannu gan Gyngor Celfyddydau Cymru, Llywodraeth Cynulliad Cymru, a'r 'UK Film council'. Gellir cael mwy o wybodaeth ar www.filmagencywales.com.

Am wybodaeth bellach cysylltwch â Lisa Jenkins, Swyddog y Wasg Dros Dro, yn Asiantaeth Ffilm Cymru ar 0790 873 8763.